Ysgol Penrhyn-coch

Bu'r Ffair Haf a gynhaliwyd yn yr ysgol yn un hynod o lwyddiannus er i'r glaw mawr amharu ychydig ar y gweithgareddau o'r tu allan. Yr oedd y stondinau'n llwythog o nwyddau a'r dyrfa fawr o bobl a oedd yn bresennol yn barod i roi pob cefnogaeth i'r gwerthwyr. Cyflwynodd y prifathro'r gwr a wahoddwyd i agor y ffair, sef Mr Frank Binks. Y mae'r ysgol yn agos iawn at galon Mr Binks a chymer ddiddordeb mawr yn ei disgyblion ac yn yr holl weithgareddau sydd ynghlwm wrthi. Cafwyd anerchiad diddorol iawn gan Mr Binks. Soniodd am ei bleser o gael agor y noson ac ar yr un pryd daflu golwg yn ol dros y gorffennol. Clywsom ganddo am ei waith yn y Llyfrgell Genedlaethol ac am y deugain mil o lyfrau a ddaw'n flynyddol i'r Llyfrgell. Yn eu plith wrth gwrs y mae Cylchgrawn Brogynin, sef Cylchgrawn Ysgol Penrhyn-coch. Braf oedd gweld y cylchgrawn yn cael derbyniad gwresog gan rieni a chyfeillion eleni eto a da yw deall bod gwahanol bobl yn cael cymaint o fwynhad o'i ddarllen. Y mae diolch diffuant yn ddyledus i Mrs Elfed Evans, Bodafon am deipio'r cyfan o'r cylchgrawn - gwaith nid bychan. Cyflwynwyd copi o'r cylchgrawn i Mr Frank Binks ynghyd ag anrheg fechan fel arwydd o'n gwerthfawrogiad iddo gan Cerys Humphreys. Diolchwyd iddo hefyd am ei rodd hael i'r gronfa. Da yw deall bod elw'r noson oddeutu pedwar can punt. Mynegwyd diolch i bawb gan Mr D. Rees Morgan.

Yn ystod y mis cawsom y cyfle un prynhawn i groesawu llond bws o fyfyrwyr o Goleg y Drindod, Caerfyrddin i'n plith. Daethant atom i gael gweld sut yr ydym yn cyflwyno'r gwahanol bynciau a pha fodd y cyfunwn y gwersi. Bu iddynt ymweled a phob dosbarth a chael hwyl arbennig wrth wneud hynny. Hyfryd oedd cael croesawu Mr Malcolm Jones, pennaeth Adran